CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cabinet**
Dyddiad y cyfarfod:	**5 Gorffennaf 2022**
Teitl:	**Perfformiad Rheoli'r Trysorlys 2021/22**
Pwrpas yr adroddiad:	**Adrodd ar Berfformiad Rheoli'r Trysorlys 2021/22**
Er:	**GWYBODAETH**
Portffolio Cabinet:	**Gwasanaethau Cyllid a Chaffael**
Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Gareth Davies – Gwasanaethau Cyllid a Chaffael**

1. CYFLWYNIAD

Cyflwynir yr adroddiad hwn yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus (y Côd). Mae'n ofyniad yn y côd i adrodd i'r Cabinet ar weithgarwch disgwyliedig y trysorlys am y flwyddyn sydd i ddod ac wedyn ar berfformiad rheoli trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn honno.

Mae CIPFA yn diffinio rheoli'r trysorlys fel a ganlyn:

"Rheoli buddsoddiadau a llif arian yr awdurdod, ei drafodion o ran bancio, marchnadoedd arian a marchnadoedd cyfalaf; rheolaeth effeithio dros y risgiau sy'n ymwneud â'r gweithgareddau hynny a cheisio sicrhau'r perfformiad gorau yn unol â'r risgiau hynny."

2. STRATEGAETH

Cafodd strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor 2021/22 ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn yn mis Mawrth 2021.

Yn Strategaeth Fuddsoddi'r Cyngor amlinellir mai blaenoriaethau'r Cyngor o ran buddsoddi yw diogelu cyfalaf a hylifedd. Y bwriad yw sicrhau'r derbynion mwyaf ar y buddsoddiadau yn gymesur â diogeledd a hylifedd priodol. Yn gyffredinol, rhagwelwyd y byddai buddsoddiadau ar gyfer gofynion llif arian craidd yn para am gyfnodau o hyd at 3 mis, ond y byddai cyfle i fuddsoddi am gyfnodau hirach (hyd at flwyddyn) os oes balansau dros ben ar gael ar gyfer buddsoddi.

Ni fenthycwyd o'r newydd yn ystod 2021/22 gan fod y Cyngor yn parhau i gynnal sefyllfa fenthyca fewnol sy'n helpu i gyflawni arbedion refeniw yn y tymor byr.

3. YMGYNGHORWYR Y TRYSORLYS

Mae'r Cyngor yn cyflogi Link Treasury Solutions Ltd yn ymgynghorydd allanol i'r Cyngor parthed y Trysorlys, ar gontract hyd at 31/08/2022.

4. CONTRACT BANCIO

Mae gan y Cyngor gontract gyda Barclays ar gyfer gwasanaethau bancio, sy'n rhedeg hyd 29/02/2024. Mae Barclays yn fanc sydd wedi'i leoli yn y Deyrnas Gyfunol a chanddo statws credyd hirdymor o A1 (gan Moody's). Mae'n parhau i roi gwasanaeth rhagorol i'r Cyngor, yn enwedig yn ystod Pandemig Covid-19. Yn ogystal, mae Barclays wedi rhoi cyngor i helpu ffoaduriaid o Wcráin i agor cyfrifon banc ac wedi helpu swyddogion i sicrhau bod arian yn cael ei dalu'n uniongyrchol i ffoaduriaid ledled y Sir.

Mae Barclays wedi arbenigo yn y sector llywodraeth leol ers dros 15 mlynedd gan ddarparu gwasanaethau bancio trafodion i bron i 25% o'r holl awdurdodau lleol ar hyn o bryd, ac â pherthynas trysorlys gyda bron i 70% ohonynt yn y Deyrnas Gyfunol. Cyfyng iawn yw nifer y darparwyr gwasanaethau bancio i'r sector llywodraeth leol a dylid nodi mai Barclays oedd yr unig fanc a fynegodd ddiddordeb ym musnes y Cyngor y tro diwethaf y caffaelwyd y contract. Mae hyder mawr yn y mesurau sydd ar waith gan Barclays i atal twyll, sef ystyriaeth hanfodol ar hyn o bryd. Mae Barclays wedi darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth seiber-dwyllo i swyddogion y Cyngor, ac roedd yn hyfforddiant o safon ac yn rhad ac am ddim. Dyma enghraifft dda o'r gwasanaethau cymorth ychwanegol yr ydym yn eu derbyn o dan y contract.

5. SEFYLLFA'R PORTFFOLIO

Isod nodir sefyllfa'r Cyngor o ran dyledion a buddsoddiadau, ar ddechrau a diwedd y flwyddyn:

	Y prif bethau sy'n weddill ar	
	31/03/21	**31/03/22**
	£m	**£m**
Benthyciadau Allanol		
Benthyciadau PWLB	110.0	108.9
Benthyciad Marchnad Barclays	5.8	5.8
Benthyciad ad-daladwy Llyw.Cymru	0.8	0.9
Cyfanswm y Ddyled	**116.6**	**115.6**
Buddsoddiadau		
Mewnol	29.2	55.5
Cyfanswm y Buddsoddiad	**29.2**	**55.5**
Dyled Net	**87.4**	**60.1**

Mae manylion y buddsoddiadau yr oedd y Cyngor yn eu dal ar ddiwedd y flwyddyn i'w gweld yn Atodiad A ac mae manylion dyledion allanol y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn i'w gweld yn Atodiad B.

6. CYFRADDAU LLOG

Cyfraddau llog tymor byr
Mae cyfradd sylfaenol Banc Lloegr yn 1.0% ar hyn o bryd. Roedd y gyfradd wedi aros ar 0.1% drwy'r rhan fwyaf o gyfnod pandemig Covid-19 hyd mor ddiweddar â chyfarfod yr MPC yn Rhagfyr 2021 pryd y cafodd ei godi i 0.25%, sef y cyntaf o bedwar cynnydd yn olynol.

Barn ein hymgynghorwyr Trysorlys yw y bydd y cyfraddau llog yn parhau i gael eu codi drwy gydol blwyddyn galendr 2022 ac i mewn i 2023 hyd nes y bydd y cyfraddau'n cyrraedd 2.0%. Wedyn bydd y gyfradd yna yn cael ei chynnal yn ôl pob golwg.

Rhagolwg Link Treasury Services o'r Cyfraddau Llog – ar 9 Mehefin 2022.

	Meh-22	Medi-22	Rhag-22	Maw-23	Meh-23	Medi-23	Rhag-23	Maw-24
Rhagolwg o'r Gyfradd Llog	1.25%	1.50%	1.75%	2.00%	2.00%	2.00%	2.00%	2.00%

Cyfraddau llog y tymor hir
(ar gyfer benthyciadau sy'n aeddfedu o'r newydd ac eithrio cyfradd Sicr/Rhagamcanol y PWLB)
Ddechrau'r flwyddyn yr oedd cyfradd 49½ hyd 50 mlynedd y PWLB yn 2.23% a bu'n amrywio drwy'r flwyddyn gan ddisgyn i 1.45% yn Rhagfyr 2021. Oddi ar y gyfradd isaf yn Rhagfyr mae'r cyfraddau wedi codi'n raddol o ganlyniad i'r cynnydd yng nghyfradd sylfaenol Banc Lloegr ac wedyn y cynnydd yn arenillion bondiau'r Llywodraeth, gan orffen y flwyddyn ar 2.59%.

Roedd cyfradd 24½ hyd 25 mlynedd y PWLB wedi dilyn patrwm tebyg gan ddechrau'r flwyddyn ar 2.42% cyn gorffen y flwyddyn ar 2.84%.



7. BENTHYCIADAU

Yn ystod 2021/22 ni aeddfedodd unrhyw fenthyciadau'r PWLB ac ni chymerwyd yr un benthyciad aeddfedu newydd allan gyda'r PWLB. Dyma fanylion y benthyciadau hynny:

Yr oedd cyfanswm o £1.1m o amrywiol ad-daliadau benthyciadau blwydd-dal yn ôl amserlen.

Mewn termau cyllidol, yr oedd yr union log a dalwyd ar fenthyciadau allanol ar gyfer 2021/22 yn £4.852m o gymharu â'r gyllideb ddiweddaraf, sef £4.989m, gan esgor ar fantais o £137k.

8. BUDDSODDIADAU

Cafodd y buddsoddiadau a reolir yn fewnol eu buddsoddi dim ond gyda'r sefydliadau a oedd wedi eu rhestru ar restr fenthyca gymeradwy'r Cyngor ar yr adeg y gwnaethpwyd y buddsoddiad. Yn bennaf buddsoddodd y Cyngor am gyfnodau byrion at ddibenion a oedd yn ymwneud â llif arian (e.e. taliadau credydwyr, taliadau cyflogres), ond gan fanteisio ar werth ychwanegol buddsoddi am gyfnodau hirach lle'r oedd y llifau arian yn caniatáu hynny. Yn gryno felly, yr oedd y strategaeth yn canolbwyntio ar yr isod:

- Dim buddsoddiadau mwy na blwyddyn o hyd.
- Dim buddsoddiadau gydag unrhyw barti i gontract nad yw'n cyflawni sgôr gredyd sylfaenol a ddiffinnir yn 'Wyrdd' gan Link ac eithrio banciau a gynorthwyir gan y Llywodraeth (a ddiffinnir yn 'Las' gan Link)
- Rhestr sefydlog o bartïon i gontract (yn amodol ar gyflawni meini prawf y sgôr gredyd) sef: Banc Barclays, Banc y National Westminster, Grŵp Bancio Lloyds, HSBC, Cymdeithas Adeiladu Nationwide, Santander UK, Grŵp Royal Bank of Scotland, Cymdeithas Adeiladu Coventry, Cymdeithas Adeiladu Leeds, Cymdeithas Adeiladu Swydd Efrog/Yorkshire, Cymdeithas Adeiladu Skipton, Banc Standard Chartered, UBS Cyf, Banc Rhyngwladol Goldman Sachs, Awdurdodau Lleol eraill a chyfrif Swyddfa Rheoli Dyledion Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol.

Mae canlyniadau'r buddsoddiadau a wnaethpwyd (rheolir y cyfan yn fewnol gan dîm y Trysorlys) yn 2021/22 fel a ganlyn:

Balansau cyfartalog Buddsoddiadau	Cyfradd Enillion	Enillion Meincnod*
Buddsoddiadau - £49.6m	0.12%	0.14%

** Cyfradd gyfartalog SONIA*

Mewn termau cyllidol, yr oedd yr union incwm cyffredinol o fuddsoddiadau yn £60k o gymharu â'r gyllideb ddiweddaraf, sef £33k, gan esgor ar fantais o £27k.

9. AD-DREFNU DYLEDION

Ni ad-dalwyd benthyciadau ymlaen llaw ac ni ad-drefnwyd benthyciadau ychwaith yn 2021/22.

10. CYDYMFFURFIO Â CHYFYNGIADAU'R TRYSORLYS

Yn ystod y flwyddyn ariannol bu i'r Cyngor weithredu'n unol â chyfyngiadau'r Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus sydd wedi eu nodi yn adroddiad Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor.

	Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	**Crynodeb:** Ddim yn berthnasol **Hirdymor:** **Integreiddio:** **Cydweithio:** **Cynnwys:** **Atal:**
Argymhelliad:	**Nodi cynnwys yr adroddiad**
Rheswm dros y penderfyniad:	Nid oes angen un
Trosolwg a Chraffu:	Ystyriwyd yn ystod y broses o gymeradwyo'r Strategaeth
Fframwaith Polisi:	Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2021/22
Amcanion Strategol:	Mae Rheoli'r Trysorlys yn sail i'r holl amcanion Corfforaethol
Goblygiadau Ariannol:	Cyllidebau Cyllid a Chaffael: Incwm o fuddsoddiadau / Y llog allanol a delir
Pwerau Statudol:	Deddf Llywodraeth Leol 2003
Papurau Cefndir:	Adroddiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys 2021/22 a gyflwynwyd i'r Cyngor llawn (Mawrth 2021)
Atodiadau:	Atodiad A – Portffolio Buddsoddi Atodiad B – Portffolio Dyledion
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Stephen Johnson (Cyllid a Chaffael)
Swyddog Adrodd:	Justin Davies – Rheolwr Corfforaethol Cyllid Craidd
Dyddiad:	10 Mehefin 2022

Atodiad A

BUDDSODDIADAU

DETAILS	VALUE	INTEREST RATE	INVESTMENT	
	£	%	FROM	TO
Investments held				
DMADF	1,000,000	0.515	14/02/2022	17/05/2022
DMADF	2,000,000	0.520	15/02/2022	20/05/2022
DMADF	2,000,000	0.445	17/02/2022	22/04/2022
DMADF	1,000,000	0.435	21/02/2022	20/04/2022
DMADF	1,000,000	0.445	21/02/2022	22/04/2022
DMADF	1,000,000	0.540	22/02/2022	23/05/2022
DMADF	1,000,000	0.540	22/02/2022	24/05/2022
DMADF	1,000,000	0.430	24/02/2022	25/04/2022
DMADF	500,000	0.435	24/02/2022	26/04/2022
DMADF	500,000	0.440	25/02/2022	29/04/2022
DMADF	1,500,000	0.405	28/02/2022	04/04/2022
DMADF	1,000,000	0.410	28/02/2022	07/04/2022
YORKSHIRE BUILDING SOCIETY	1,000,000	0.460	28/02/2022	08/04/2022
DMADF	500,000	0.420	02/03/2022	08/04/2022
DMADF	500,000	0.420	02/03/2022	11/04/2022
YORKSHIRE BUILDING SOCIETY	1,000,000	0.500	02/03/2022	29/04/2022
DMADF	1,000,000	0.465	03/03/2022	20/04/2022
DMADF	4,000,000	0.470	03/03/2022	29/04/2022
DMADF	2,000,000	0.585	03/03/2022	10/06/2022
DMADF	1,500,000	0.520	09/03/2022	29/04/2022
DMADF	1,000,000	0.530	10/03/2022	11/04/2022
DMADF	4,000,000	0.570	15/03/2022	29/04/2022
DMADF	3,000,000	0.580	16/03/2022	29/04/2022
DMADF	2,000,000	0.555	18/03/2022	29/04/2022
COVENTRY BUILDING SOCIETY	1,000,000	0.570	21/03/2022	20/05/2022
LEEDS BUILDING SOCIETY	1,000,000	0.710	21/03/2022	21/06/2022
LEEDS BUILDING SOCIETY	1,000,000	0.710	22/03/2022	22/06/2022
LEEDS BUILDING SOCIETY	1,000,000	0.790	28/03/2022	28/06/2022
GOLDMAN SACHS INTERNATIONAL	4,000,000	1.305	31/03/2022	30/09/2022
	43,000,000			
Deposits in Barclays Reserve a/c				
Barclays Bank	8,484,177	0.500	31/03/2022	-
Deposits in Notice Account				
Santander 95 Day Notice	4,000,000	0.250	31/03/2022	-
Nat West 35 Day Notice Account	965	0.250	31/03/2022	-
	4,000,965			
Total Investments as at 31/03/22	**55,485,142**			

DYLED ALLANOL

Atodiad B

Loan Ref	Repayment Method	Start Date	Maturity Date	Original Interest rate	Balance as at 31/03/22
PWLB Loans					
417195	**A**	24-Dec-71	02-Dec-31	8.000%	19,199
419325	**A**	21-Mar-72	02-Dec-31	7.750%	13,453
427730	**A**	12-Jun-73	02-Jun-33	9.875%	20,158
478179	**M**	26-Sep-96	31-Mar-56	8.125%	5,000,000
478585	**M**	10-Dec-96	30-Sep-56	7.500%	3,000,000
480055	**M**	13-Oct-97	30-Sep-57	6.375%	6,000,000
480689	**M**	27-Mar-98	30-Sep-52	5.875%	2,000,000
481159	**M**	20-Jul-98	31-Mar-53	5.500%	3,500,000
490819	**M**	24-Nov-05	31-Mar-31	4.250%	2,000,000
490981	**M**	11-Jan-06	31-Mar-51	3.900%	2,000,000
491703	**M**	07-Jun-06	30-Sep-41	4.350%	2,700,000
491819	**M**	07-Jul-06	30-Sep-31	4.500%	5,300,000
491837	**M**	12-Jul-06	02-Jun-39	4.450%	2,000,000
492936	**M**	20-Feb-07	06-Aug-32	4.550%	6,000,000
493401	**M**	22-Jun-07	30-Sep-22	5.400%	6,700,000
493733	**M**	10-Aug-07	30-Sep-37	4.750%	9,551,120
501411	**A**	10-Jul-12	31-Mar-32	2.860%	1,312,197
501928	**A**	01-Mar-13	31-Mar-29	2.630%	1,431,802
502054	**A**	28-Mar-13	06-Feb-33	2.860%	1,424,070
502477	**A**	13-Aug-13	30-Sep-28	3.110%	1,434,201
502596	**M**	10-Oct-13	09-Oct-36	4.210%	5,000,000
502827	**M**	06-Feb-14	10-Jan-25	3.660%	3,000,000
502828	**M**	06-Feb-14	10-Jan-27	3.840%	2,000,000
502981	**A**	09-Apr-14	31-Mar-34	3.680%	1,574,356
502982	**A**	09-Apr-14	30-Sep-28	3.230%	2,023,734
503489	**M**	25-Nov-14	31-Mar-45	3.670%	5,000,000
503490	**A**	25-Nov-14	31-Mar-44	3.400%	1,171,878
503728	**M**	09-Feb-15	31-Mar-60	2.750%	4,000,000
503729	**M**	09-Feb-15	31-Mar-61	2.750%	4,000,000
504645	**A**	04-Feb-16	30-Sep-45	2.760%	2,216,942
506318	**M**	06-Sep-17	01-Sep-28	1.970%	2,000,000
506319	**M**	06-Sep-17	01-Sep-46	2.560%	6,000,000
507963	**M**	30-Oct-18	31-Mar-34	2.500%	2,000,000
507964	**M**	30-Oct-18	30-Sep-48	2.460%	1,800,000
508214	**M**	13-Dec-18	30-Sep-39	2.520%	2,000,000
509622	**M**	08-Aug-19	30-Sep-58	1.970%	2,000,000
509623	**M**	08-Aug-19	30-Sep-34	1.730%	1,800,000
					108,993,109
Market Loan					
BBFRML	**M**	20-Jun-16	13-Sep-66	3.660%	5,750,000
WG Repayable Loan funding					
HIELPL1	**M**	06-Mar-15	31-Mar-30	0.000%	556,075
HIELPL2	**M**	27-Mar-20	31-Mar-35	0.000%	250,000
PRS	**M**	26-Oct-20	30-Jun-27	0.000%	80,000
					886,075
TOTAL					**115,629,184**

Allwedd
A – Blwydd-daliadau (Annuity)
M – Aeddfedu (Maturity)